OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1358

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001

**Esemptiadau**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd unrhyw ffi yn daladwy o dan reoliadau 3, 4, 6 neu 7—

(a) gan berson sydd o dan 25 mlwydd oed;

(b) gan berson sydd wedi cyrraedd 60 mlwydd oed;

(c) gan fenyw a chanddi dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan Awdurdod Iechyd ar y sail ei bod yn disgwyl baban neu ei bod wedi esgor yn ystod y deuddeng mis diwethaf ar blentyn byw neu blentyn a oedd yn gofrestradwy fel plentyn marwanedig o dan Ddeddf Cofrestru Genediaethau a Marwolaethau 1953(**1**) neu a chanddi dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(ch) gan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan Awdurdod Iechyd ar y sail ei fod yn dioddedf un neu ragor o'r anhwylderau canlynol—

(i) ffistwla parhaol (gan gynnwys caecostomi, colostomi, laryngostomi neu ileostomi) y mae angen rhwymyn llawfeddygol parhaus neu gyfarpar ar ei gyfer;

(ii) yr anhwylderau canlynol—

mathau o hypoadrenalinedd (gan gynnwys clefyd Addison) y mae'n hanfodol cael therapi amnewid penodol ar eu cyfer

diabetes insipidus a mathau eraill o hypobit?idedd

diabetes mellitus – ac eithrio os yw'n cael ei drin drwy'r deiet yn unig

hypoparathyroidedd

myasthenia gravis

myxoedema

(iii) epilepsi y mae angen triniaeth barhaus ar ei gyfer i atal confylsiynau;

(iv) anabledd corfforol parhaus sy'n atal y claf rhag ymadael â'i breswylfa heb gymorth person arall;

na chan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

(d) gan berson a chanddo dystysgrif esemptio ddilys wedi'i rhoi gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â chyflenwi cyffuriau a chyfarpar i drin anabledd wedi'i dderbyn, ond yn y naill achos neu'r llall, dim ond mewn perthynas â'r cyflenwadau y mae'r dystysgrif yn ymwneud â hwy;

(**1**) 1953 (p. 20)

(dd) gan berson a chanddo dystysgrif rhagdalu ddilys neu dystysgrif ragdalu ddilys wedi'i rhoi o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd unrhyw ffi yn daladwy o dan reoliad 5—

(a) mewn perthynas â chyflenwi cyfarpar a bennir yng ngholofn (1) o Atodlen 1 gan berson o ddisgrifiad a bennir ym mharagraff (1)(d);

(b) mewn perthynas â chyflenwi cyfarpar nad yw wedi'i bennu felly neu gyflenwi teits neu gyffuriau, gan berson o ddisgrifiad a bennir yn unrhyw o is-baragraffau (b) i (dd) o baragraff (1).

(3) Rhaid i berson sy'n dymuno gwneud cais am yr hawl i esemptiad o dan baragraff (1) neu (2) ddarparu unrhyw ddatganiad o hawl sy'n angenrheidiol o dan reoliad 3(3) neu 4(3) ac unrhyw ddatganiad neu dystiolaeth o hawl sy'n angenrheidiol o dan reoliadau 5(3), 6(3) neu 7(3).

(4) Yn achos person y cyfeirir ato yn rheoliad 5 o'r Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl, rhaid peidio â chodi ffi y cyfeirir ati yng ngholofn (1) o Atodlen 1 i'r graddau a bennir yn y rheoliad hwnnw.

(5) Pan beidir â chodi ffi yn rhannol o dan baragraff (4) rhaid i'r person sy'n gwneud y taliad rhannol lofnodi datganiad ysgrifenedig wrth wneud hynny fod y rhan berthnasol o'r ffi wedi'i thalu a chwblhau datganiad o hawl, a darparu unrhyw dystiolaeth arall o'r hawl i beidio â thalu rhan o'r ffi y gofynnir amdani.

(6) Caiff esemptiad drwy gyfeirio at oedran neu ddilysrwydd tystysgrif esemptio eu penderfynu drwy gyfeirio at yr oedran neu'r dilysrwydd ar y diwrnod—

(a) y cyflwynir yr archeb am gyffuriau neu gyfarpar i'w pharatoi, yn achos gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllydd;

(b) y caiff y cyffuriau neu'r cyfarpar eu cyflenwi, mewn unrhyw achos arall.

(7) Os oes hawliad am esemptiad wedi'i wneud ond heb ei gadarnhau ac nad oes ffi wedi'i chasglu yn sgil yr hawliad, rhaid i'r Awdurdod Iechyd neu, os yw'r cyffuriau neu'r cyfarpar wedi'u cyflenwi gan ymddiriedolaeth NHS, rhaid i'r ymddiriedolaeth NHS honno gasglu'r ffi honno oddi wrth y person o dan sylw.